EDRYCH AM RYWBETH.

‘Nol yn y pellter mae atgofion yn gryf
O’r cysur a’r cariad sy’ yno I mi
Mae pawb a’u hatgofion o rywle dwy’n sïwr
Yn gwmws fel yno i mi, yn gwmws fel yno i mi.

O draethau’r môr marw I ganol y byd
O gopa yr Andes mai’I yno o hyd
Yr holl ddiniweidrwydd yn gudd ers cyhyd
Fu yma ers genni y byd, fu yma ers genni y byd.

Mae pob un yn edrych am rywbeth
Mae pob un a’i freuddwyd mi wn
Mae pob un a’i seren a’i angel
Dwy’n berffaith sicr o hyn, rwy’n berffaith sicr o hyn.

Wrth adael yr orsaf mi syllais yn ôl
At y sawl a saif yno, gadawyd ar ôl
Sibrydais addewid wrth godi fy llaw
Diflannodd y cwbwl i’r niwl, diflannodd y cwbwl i’r niwl.

©Geraint Griffiths.